# TAG UG/Uwch

975/51

# MATHEMATEG C3
## Mathemateg Bur

A.M. DYDD GWENER, 23 Mai 2008

$1\frac{1}{2}$ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn.

Rhaid dangos gwaith cyfrifo digonol er mwyn egluro'r dull **mathemategol** a ddefnyddir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

JD(S)8-975-51)

**1.** Defnyddiwch Reol Simpson gyda phum mesuryn i ddarganfod bras werth ar gyfer

$$\int_0^1 \sqrt{1+e^x}\ dx\,.$$

Dangoswch eich gwaith cyfrifo a rhowch eich ateb yn gywir i dri lle degol. [4]

**2.** *(a)* Trwy ddefnyddio gwrthenghraifft, dangoswch fod y gosodiad

$$\tan 2\theta \equiv \frac{2\tan\theta}{1+\tan^2\theta}$$

yn anghywir. [2]

*(b)* Darganfyddwch holl werthoedd $\theta$ yn yr amrediad $0° \leqslant \theta \leqslant 360°$ sy'n bodloni

$$2\sec^2\theta = 8 - \tan\theta.$$ [6]

**3.** O wybod bod

$$x^2 + x\sin y + y^3 = \pi^3 + 1,$$

darganfyddwch werth $\frac{dy}{dx}$ yn y pwynt $(1, \pi)$. [4]

**4.** O wybod bod $x = \ln t$, $y = e^{2t}$,

*(a)* dangoswch fod $\frac{dy}{dx} = 2te^{2t}$, [4]

*(b)* darganfyddwch $\frac{d^2y}{dx^2}$ yn nhermau $t$, a symleiddiwch eich ateb. [4]

**5.** *(a)* Dangoswch fod gan $f(x) = \sin^{-1}x - 2x^{\frac{3}{2}} + 1$ werth arhosol pan fydd $x$ yn bodloni

$$9x^3 - 9x + 1 = 0.$$ [4]

*(b)* Dangoswch fod i'r hafaliad

$$9x^3 - 9x + 1 = 0$$

wreiddyn $\alpha$ rhwng 0 a 0·2.


Gellir defnyddio'r berthynas gylchol

$$x_{n+1} = x_n^3 + \frac{1}{9}$$

gydag $x_0 = 0{\cdot}1$ i ddarganfod $\alpha$. Darganfyddwch a chofnodwch werthoedd $x_1, x_2, x_3$.

Ysgrifennwch werth $x_3$ yn gywir i bum lle degol a phrofwch mai'r gwerth hwn yw gwerth $\alpha$ yn gywir i bum lle degol. [7]

**6.** *(a)* Mae'r diagram yn dangos graff $y = f(x)$. Mae gan y graff bwynt arhosol yn (0, –4) ac mae'n croestorri'r echelin–$x$ yn y pwyntiau (–2, 0) a (2, 0).




Brasluniwch graff $y = 3f(x - 1)$, gan nodi cyfesurynnau'r pwynt arhosol a'r pwyntiau lle mae'r graff yn croesi'r echelin–$x$. [3]

*(b)* Datryswch $3|x| + 1 = 2 - |x|$. [2]

*(c)* Datryswch $|2x - 9| > 3$. [4]

**7.** *(a)* Darganfyddwch (i) $\int \sin 3x \, dx$, (ii) $\int \frac{2}{3x+5} \, dx$, (iii) $\int e^{3x+4} dx$. [6]

*(b)* Enrhifwch $\int_0^1 \frac{1}{(2x+1)^4} \, dx$. [4]

**8.** Differwch *(a)* $\cot 2x$, *(b)* $x^2 \ln x$, *(c)* $\frac{x^2+1}{x^2-2}$,

gan symleiddio eich atebion pan fo hyn yn bosibl. [2], [2], [3]

# TROSODD

**9.** Mae gan y ffwythiant $f$ barth $x \leqslant -1$ ac fe'i diffinnir gan

$$f(x) = (x + 1)^2 - 2.$$

*(a)* Darganfyddwch amrediad $f$. [1]

*(b)* Darganfyddwch fynegiad ar gyfer $f^{-1}(x)$. Nodwch barth ac amrediad $f^{-1}$. [6]

**10.** Mae gan y ffwythiant $f$ barth $(-\infty, \infty)$ ac fe'i diffinnir gan

$$f(x) = 2e^x.$$

Mae gan y ffwythiant $g$ barth $[1, \infty)$ ac fe'i diffinnir gan

$$g(x) = 3 \ln x.$$

*(a)* Eglurwch pam nad yw $gf(-1)$ yn bodoli. [2]

*(b)* Darganfyddwch, yn ei ffurf symlaf, fynegiad ar gyfer $fg(x)$. Nodwch barth ac amrediad $fg$. [5]